



Medicines & Healthcare products
Regulatory Agency

Asiantaeth Reoleiddio Meddyginiaethau a
Chynhyrchion Gofal Iechyd



NFCC
National Fire
Chiefs Council

Cyngor Cenedlaethol y Penaeithiaid Tân



ELIAU CROEN: RHYBUDD



**Gall dillad, dillad gwely,
gorchuddion a rhwymynnau
gydag eli croen wedi ei sychu
arnynt fynd ar dân yn hawdd
gan achosi llosgiadau difrifol
ac angheuol**

Mae eliau'n bwysig i reoli cyflyrau croen gwahanol.

Dylech barhau i ddefnyddio eich cynhyrchion croen yn unol â
chyfarwyddyd eich meddyg, nyrs neu fferyllydd.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig eich bod yn ymwybodol
o'r perygl posibl a sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r
cynhyrchion hyn.

**CADWCH DRAW O FFLAMAU AGORED
A FFYNONELLAU GWRES WRTH DDEFNYDDIO'R
CYNHYRCHION HYN**

Am ragor o wybodaeth, ewch i gov.uk/mhra

Ydych chi'n defnyddio eli croen, balm, golchdrwyth, gel, chwistrell, olew bath neu ddewis amgen i sebon (sydd weithiau'n cael eu galw'n eliau esmwythyddion)? Cânt eu defnyddio i reoli cyflyrau croen sych fel ecsema, psoriasis ac ichthisosis.

Efallai y bydd rhai gorchuddion a rhwymynnau'n dod gydag eli arnynt eisoes.

Gall eliau esmwythyddion drosglwyddo o'ch croen i'ch dillad, dillad gwely a rhwymynnau. Ym mhresenoldeb ffynhonnell danio, gall ffabrig gydag eli esmwythyddion wedi sychu arno fynd ar dân yn gyflymach o lawer a llosgi'n boethach na ffabrig glân. Gall hyn achosi llosgiadau difrifol a hyd yn oed farwolaeth.



SUT I DDEFNYDDIO ELIAU ESMWYTHYDDION YN DDIOGEL

- 1** Peidiwch ag ysmegu, coginio neu fynd yn agos i unrhyw fflamau agored neu ffynonellau gwres fel nwy, halogen, tanau bar trydanol neu danau agored, tra byddwch yn gwisgo dilliad neu orchuddion sydd wedi bod mewn cysylltiad â chroen sydd wedi ei drin gydag eli esmwythyddion cymerwch gamau i leihau'r risg; e.e. defnyddio taniwr diogel neu e-sigaret, tynnwch ddillad llewys hir neu ddillad llac cyn coginio, rhowch grysg trwchus, ffedog neu frat glân dros eich dilliad a symudwch eich cadair ymhellach i ffwrdd o'r tân agored neu ffynhonnell gwres arall.
- 2** Newidiwch a golchwch eich dillad yn gyson (bob dydd, yn ddefnyddol). Efallai y bydd golchi eich dillad ar y tymheredd uchaf a argymhellir gan y gwneuthurwr yn lleihau'r eli esmwythyddion sy'n cronni arnynt ond nid yw'n cael gwared arno'n gyfan gwbl ac efallai y bydd y perygl yn parhau.
- 3** Byddwch yn ofalus fel na fydd yr eli'n sychu ar glustogau, carpedi a llenni a dillad gwely. Os bydd hyn digwydd, defnyddiwch flancedi/gorchuddion glân ar eich seddau a golchwch eich dwylo'n gyson fel uchod.
- 4** Rhowch wybod i'ch perthnasau neu'ch gofalgwyr am eich triniaeth a dangoswch y daflen hon iddynt. Gall y rheiny sy'n gofalu amdanoch helpu i'ch cadw'n ddiogel
- 5** Rhowch wybod i'ch meddyg, nyrs neu fferylllydd os ydych yn ysmegu fel arfer. Byddant yn gallu rhoi cymorth a chyngor i chi o ran rhoi'r gorau i ysmegu.

I gael cyngor ac arweiniad ar leihau eich risg o dân wrth ddefnyddio eliau esmwythyddion, cysylltwch â'ch gwasanaeth tân ac achub lleol.

Siaradwch â'ch meddyg, nyrs neu fferylllydd os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth yn y daflen hon